

Cymuned Bach!

Stories

Puzzles

Colouring

Prayer ideas

Craft

Games

Gathering, growing, going

Diocese of Swansea & Brecon

Y Picnic Gwych

Cyn bo hir roedd llawer iawn o bobl eisiau clywed Iesu'n son am Dduw. Ac roedd llawer rhagor ohonyn nhw eisiau iddo eu gwella. Felly roedden nhw'n ei ddilyn i bob man. O dref i dref. O'r ddinas i'r wlad. A phob cam yn ol wedyn.

"Mae angen hoe arnon ni!" meddai Iesu wrth ei ffrindiau un diwrnod. Felly dyma nhw'n hwylio ar draws Mor Galilea gan obeithio cael gwesylla am ychydig yn y bryniau gerllaw. Ond roedd y bobl mor awyddus i weld Iesu fel eu bo nhw'n rheded o gwmpas y lyyn i gwrdd ag ef ar yr ochr arall.

Roedd Iesu wedi blino. Ond pan drodd yn ol a gweld y bobl yn ei ddilyn lan y rhiw dyma fe'n sefyll. "Mae'n nhw fel defaid heb fugail," meddai wrth ei ffrindiau. "Mae angen rhywun i ddangos y ffordd iddyn nhw."

Felly dyma fe'n eistedd - yn y fan a'r lle. Ac fe ddechreuodd ddysgu. "Mae Duw yn eich caru chi," meddai Iesu, mae'n gwybod beth sydd orau i chi. Gall y pethau mwyaf anhygoed ddigwydd pan fyddwch chi'n ymddiried ynddo fe."

Dywedodd Iesu lawer mwy na hynna. Mewn gwirionedd, fe fu'n dysgu drwy'r dydd. Ac erbyn hynny roedd y bobl yn llwglyd.

"Philip!" galwodd Iesu ar un o'i ffrindiau. "Fedri di fynd i brynu bwyd i'r bobl hyn?"

Chwerthin wnaeth Philip. "Mae mwy na phum mil ohonyn nhw! Fe fyddai'n costio cyflog chwe mis i'r bwydo nhw i gyd!"

Yna dyma Andreas, brawd Pedr, yn dweud, "Mae yna fachgen fan hyn, Iesu, sydd ag ychydig o fwyd. Pum torth an dau bysgodyn. Dyw e ddin yn llawer, ond mae'n ddechreyad."

"Ydy mae e," meddai Iesu gan wenu, a rhwbiodd ei ddwylo gyda'i gilydd fel pe bai'n mynd i ddechrau gweithio. "Gwnewch i'r bobl eistedd mewn grwpiau bach. Dwedwch wrthyn nhw ein bod ni'n mynd i gael picnic!"

Edrychodd ffrindiau Iesu arno. Edrychon nhw ar fwyd y bachgen bach. Edrychon nhw ar y dorf enfawr. Yna edrychon nhw are ei gilydd a chodi eu hysgwyddau.

"Iawn," medden nhw. "Beth bynna rwyt ti'n ei ddweud."
Gwenodd Iesu wrth iddo'u gwylio nhw'n mynd. Yna plygodd ei ben, diolchodd i Dduw and y bwyd, a dechreuodd ei dorri'n ddarnau. Daeth y ffridiau yn ol a dechrau rhannu'r bwyd. Ac er mawr syndod iddyn nhw roedd yno ddigon i'r grwp cyntaf, yna i'r ail, a'r trydydd grwp ac i bob grwp arall hefyd! Digon i bawb. Mwy na digon i bawb. Cymaint, mewn gwirionedd, nes bod yna ddeuddeg basgediad yn weddill i fynd adre!
Rhwbiodd yn bobl eu boliau. Roedd hi'n ymdrech i god ar eu traed. Sycho nhw'r briwsion oddi ar eu gwefusau. Ac fe wnaeth rhai dorri gwynt hyd yn oed!
Ond y cyfan fedrai ffrindiau Iesu ei wneud oedd syllu'n syn.
"Mae'n union fel dwedais i wrthoch chi," meddai Iesu. Gall Duw wneud y pethau mwyaf anhygoel. Y cyfal sydd eisiau i ni ei wneud yw ei gredu."
Yna gwenodd ar ei hwlpwyr, rhoddodd ddarn o fara yn ei geg a chychwyn am adre.

Awdur: Bob Hartman & Krisztina Kallai Nagy
Wedi eu cymerud o Beibl Newydd Y Storiwr
Addasiad Cymraeg gan Cynthia Davies

Defnyddiwch y "Bible chat mat" yma i helpu chi a eich teulu i drafod y stori (Dim ond ar gael yn Saesneg).

Cerddoriaeth

Can Saesneg: "Little Is Much" by Kitte L. Suffield

Sgor a geiriau

Cerddoriaeth

Can: "Loaves and Fishes" by Cindy Jordan - Used by permission

Sgor a geiriau

Cerddoriaeth

Creative Prayer

Bwydo'r 5000

Wnaeth Iesu bwydo dros 5,000 o bobl gyda 5 torth a 2 pysgodyn.

Mae Iesu yn galw ni i helpu bwydo'r llwglyd a rhannu y bwyd sydd gen ni.

Mae yna llawer o bobl heb bwyd yn ein byd.

Gyda chymorth a chaniatad oedolyn cymerwch unrhywbeth sydd yn uchwanegol a rhowch hwn i'r banc bwyd yn eich ardal.

Os nad yw hwn yn bosib meddyliwch am y pethau arall mae pobl yn mynd heb ar y foment.

Meddyliwch am wahanol ffyrdd y gallwch helpu nhw adnabod cariad Iesu Grist gan wneud galwad ffon I berthynas hen neu tynnwch llun a'i bostio i rhywun sydd ar ei phen ei hun neu unrhywbeth arall yr ydych yn gallu meddwl amdano.

Iesu'n bwydo'r 5000

Edrychwch am yr 8 wahaniaeth yn y llun

© SharefaithKids. All Rights Reserved. Reproduction or Reselling forbidden. Not for use without an active SharefaithKids subscription.

Gemau

Ras y Pysgod

Pethau sydd angen:
Siapau pysgod wedi torri allan o papur tissiw neu papur newyddion
Platiau papur

Sefydliad:
Rhowch y pysgodyn ar y llawr ar un ochr yr ystafell

Sut i chwarae:
Defnyddiowch y plat papur i chwythu'r pysgodyn i ochr aral yr ystafell.
Yr un cyntaf i gyrraedd y diwedd sy'n enill.

Os ydych am wneud yn fwy gymleth meddyliwch am greu cwrs rhywstrau i chwythu eich bysgodyn o amgylch.

Creftiau

Celf Cerrig

Bydd Angen

Paint Acrylig
Carreg esmwyth

Cyfarwyddiadau

1. **Dewiswch carreg esmwyth a'i beintio yna ysgrifennwch YCHYDIG SY'N LLAWER PAN MAE DUW YNDDO**

Creu basged o dorth a physgod eich hun

Bydd Angen

Plat papur
Papur neu Cerdyn brown
Glanhawyr pibellau
Carden i greu dorth a physgod i liwio
Glud

Cyfarwyddiadau

1. **Torwch y papur/ cerdyn brown mewn i stribedu a'i plethu i greu fasged.**
2. **Gludwch y papur/ cerdyn wedi'i plethu i'r plat papur.**
3. **Torrwch 4 twll yn y plat, 2 ar bob ochr**
4. **Defnyddiwch Glanaeyr Pibellau i greu dolen.**
5. **Defnyddiwch carden i creu 5 torth a 2 bysgodyn a'i liwio**
6. **Gludwch y dorth a'r bysgodyn yn y fasged**